**ARGYMHELLION CYFARFOD Y PWYLLGOR MWYNDERAU**

**A GYNHALIWYD AR 16eg o Fehefin 2025 7PM**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths

Peter Jones

Troy Maclean

David Meirion Jones

Geoffrey Jones

Mark Thomas

Dewi Prysor Williams

Morwenna Pugh

Sioned Graham-Cameron (Clerc y Dref)

Ellen Pugh (Dirprwy Glerc y Dref)

**1. Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniodd y Cyngor ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Glyn Davies.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd y Cynghorydd Mark Thomas fuddiant yn Eitem 11.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**4. Adroddiad Misol Caeau Chwarae**

Hysbysodd y Dirprwy Glerc y Cyngor fod y ffens yng Nghof Golofn Llan wedi cael sylw gan y swyddog cynnal a chadw. Nododd hefyd fod y gwair a oedd wedi'i adrodd gan y Swyddog Caeau Chwarae wedi cael ei dorri Bellach gan Swyddog Tori Gwair.

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas y dylai'r Cyngor ddechrau tyfu ei flodau ei hun, gan allu arwain at arbedion tymor hir wrth osod adeilad polytwnel ger Cwt Canws. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths.

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas adeiladu lloches yng nghompownd Cwt Canws I gadw compost y Cyngor yn such. Eiliwyd gan y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths.

Cynigiodd y Cyngorhorydd Mark Thomas hefyd i'r Cyngor brynu pedwar llwyth o sglodion coed ar £80 y llwyth - dau ar gyfer Y Parc a dau ar gyfer y Berllan. Eiliwyd gan y Cynghorydd Troy Mclean.

Cytunodd y Cyngor.

**5. Adroddiad Swyddog Llwybrau Cerdded**

Adroddodd y Dirprwy Glerc fod y rhan fwyaf o'r llwybrau wedi'u cerdded ar gyfer y flwyddyn. Gofynnodd a oedd gan unrhyw aelodau'r Cyngor wybodaeth ynghylch y llwybr rhwng y Feddygfa a Thai'r Gelli, gan fod Cyngor Gwynedd wedi gofyn am wybodaeth.

DRAFT

**6. Rhestr Gwaith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Nododd y Cynghorydd Mark Thomas fod darn o haearn wedi'i ddarganfod yn ystod gwaith garddio yn Y Parc ac roedd angen gwaith arno i'w wneud yn saff, gofynnodd i'w ychwanegu at restr y swyddog. Gofynnodd hefyd i feinc a ffens gael eu symud ym Mharc Tanygrisiau, a beinc arall gael ei symud o'r Parc i Danygrisiau, ynghyd â gwaith adeiladu'r polytwnel a'r lloches gompost. Cytunodd y Cyngor.

**7. Ystyried dyfynbris GL JONES am si-so i gae Bryn Coed**

Gofynnodd y Cyngor i'r clercion edrych am ddyfynbris arall ar gyfer sig-saw I gymharu prisiau, ond cytunwyd i barhau â'r cais grant. Cytunodd y Cyngor.

**8. MUGA - Trefniadau dosbarthu offer MUGA a thrafod dyddiad i'r cyhoedd.**

Cynigiodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths nad yw'r offer chwarae yn cael eu dosbarthu i'r cyhoedd tan fod y Pafiliwn wedi ailagor. Eiliwyd gan y Cynghorydd David Meirion Jones.

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths, y dylai'r Parc aros ar gau tan i bob gwaith sydd ar y gweill yn y parc gael ei gwblhau, gan gynnwys torri'r gwrychoedd a gwaith garddio. Cytunodd y Cyngor.

Cytunodd y Cyngor hefyd i'r meddyg coed fynd ymlaen â'r gwaith cynlluniedig yn Y Parc ar ol I'r Clercod adrodd fod nhw wedi derbyn pris swyddogol. Cytunodd y Cyngor.

**9. Diweddariad ar Faes Parcio'r Berllan**

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas anfon llythyr drwy bost wedi'i gofrestru at y pensaer, gan nad yw'r Clerc wedi derbyn ymateb i'w he-byst. Eiliwyd gan y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths. Cytunodd y Cyngor.

**10. Derbyn unrhyw ddiweddariad ar Gaffi'r Pafiliwn.**

Eglurodd y Clerc nad oedd unrhyw ymateb wedi dod gan y dyluniwr eto, ond y byddai'n cysylltu unwaith eto ddiwedd yr wythnos. Cytunodd y Cyngor.

**11. Les y Rhandir yn Y Parc**

Gadawodd y Cynghorydd Mark Thomas yr ystafell oherwydd buddiant a ddatganwyd.

Nododd y Dirprwy Glerc fod angen diwygio'r amlinelliad ar y map, gan ei fod yn cynnwys yr holl barc. Cytunodd y Cyngor i ddileu unrhyw gyfeiriad at Dref Werdd a Blaenau Bendigedig.

Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Watson Jones y dylai'r les fod am gyfnod o ddwy flynedd am £5 y flwyddyn.

Eiliwyd gan y Cynghorydd David Meirion Jones.

Cytunodd y Cyngor y bydd y Clercod yn anfon copi drafft at y cyfreithiwr i'w adolygu, ac y bydd y drefn bresennol yn parhau tan hynny. Cytunodd y Cyngor.

**12. Adroddiad Gwaith Mwynderau'r Clercod - Gwaith a Gwblhawyd**

Adolygodd y Cyngor y ddogfen. Gofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas i'r Clercod ysgrifennu llythyr o ddiolch i'r Frigâd Dân lleol am eu cymorth i lenwi tanciau IBC y Berllan. Cytunodd y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7:49PM**

DRAFT